

GWYBODAETH

YMUNO'R CWRS



BSc (Anrh) Systemau Gwybodaeth Busnes

**YSGOL DECHNOLEGAU
CAERDYDD**

Gwybodaeth am y Sefydlu a'r Ymrestru

Blwyddyn Academaidd 2021/2022

MetCaerdydd

CYNNWYS

- 1. Croeso gan eich Tîm Addysgu**
- 2. Tasgau Haf Cyn Cyrraedd**
- 3. Cofrestru / Casglu CerdynMet Myfyriwr**
- 4. Wythnos Sefydlu**
- 5. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Nodweddiadol**
- 6. Newidiadau i'r Cwrs oherwydd COVID-19**
- 7. Dolenni defnyddiol**



1. Croeso gan eich Tîm Addysgu

CROESO GAN DDEON YSGOL DECHNOLEGAU CAERDYDD



Mae'n bleser o'r mwyaf gen i'ch croesawu i hyn, cychwyn cyfnod nesaf eich taith, a hynny ar adeg gyffrous ym mywyd yr ysgol gymharol newydd hon ym Met Caerdydd.

Tybiaf eich bod efallai yn profi amrywiaeth o deimladau. Ar ôl blynyddoedd o ddiwydrwydd ac ymroddiad i gyflawni'ch targedau, rydych chi nawr, yn haeddiannol, wedi cael cynnig lle ym Met Caerdydd. Hwyrach eich bod yn teimlo'n anniddig ac eto'n gyffrous ac efallai ychydig yn ofnus. Mae'r holl deimladau hyn yn hollol naturiol. Ond gallwch fod yn sicr, eich bod, yn ystod cyfnod y pandemig wedi ennill ac yn haeddu eich lle ym Met Caerdydd a byddwch yn ffynnu o fod yn aelod o gymuned y brifysgol. Da iawn chi, a llongyfarchiadau am gymryd y cam nesaf hwn!

Yn yr Ysgol Dechnolegau ein nod ydy treulio'r blynyddoedd nesaf yn eich paratoi ar gyfer gyrfa lwyddiannus mewn ystod o sectorau yn seiliedig ar y sgiliau y byddwch yn eu dysgu gyda ni. Yn ogystal â'r sgiliau a'r wybodaeth dechnegol amlwg ac yn arbennig ar gyfer y rhai ohonoch fydd yn ymuno â ni yn syth o'r ysgol neu o'r coleg, byddwn yn datblygu'ch talentau i'ch galluogi i bontio'n llyfn i'r gweithle ar ôl i chi raddio.

Byddwn yn eich cynorthwyo i ddatblygu'ch dealltwriaeth o arferion gofynnol ar gyfer unrhyw weithle. I wneud hyn byddwn yn tynnu ar gymuned gyfan yr Ysgol Dechnolegau. Ategir eich astudiaethau gan arweiniad a hyfforddiant gan staff profiadol iawn ac efallai cewch chi dynnu ar brofiad eich cyd-fyfyrwyr hŷn. Myfyrwyr ydy'r rhain sy'n astudio'r un rhaglenni ond wedi dilyn gyrfaoedd mewn mannau eraill cyn ymuno â ni.

Rydw i wedi crybwyll y gair 'cymuned' nifer o weithiau. Byddwch yn ymuno â chymuned yr Ysgol Dechnolegau ac rydyn ni am i chi edrych ymlaen at wneud hynny. Bydd y gymuned yn cynnwys pobl ar yr un daith, ar raglenni technoleg eraill, myfyrwyr ôl-raddedig ac ymchwilwyr a staff. Mae'n gymuned glos iawn, yn unedig yn eu dymuniad i wella ac i ddarparu amgylchedd datblygu diogel ar gyfer ei holl aelodau. Yr oll sy'n ofynnol ydy eich bod yn ymglymu a mwynhau'r cyfle yn ystod eich cyfnod yma.

Croeso i gymuned Ysgol Dechnolegau Caerdydd – rydyn ni'n edrych ymlaen at gwrdd â chi.

Yn gywir,
Jon Platts
BEng MSc PhD CEng FIET MInstMC MINCOSE
Deon yr Ysgol Dechnolegau
Athro Systemau Ymreolaethol



CROESO GAN GYFARWYDDWR EICH RHAGLEN

Croeso mawr i Brifysgol Metropolitan Caerdydd (Met Caerdydd) ac i Ysgol Dechnolegau Caerdydd (CST). Rydyn ni wrth ein bodd eich bod wedi dewis treulio'r blynyddoedd nesaf yn astudio gyda ni ac rydyn ni'n hyderus y cewch brofiad plaserus a boddhaus.



Mae'r tîm addysgu cyfan wrth law i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich amser ym Met Caerdydd. Croeso i chi gysylltu â ni os bydd gennych unrhyw gwestiwn neu bryder yn ystod yr wythnosau nesaf wrth i chi setlo yn eich bywyd newydd yn y Brifysgol. Hoffen ni bwysleisio bod pawb yn CST a Met Caerdydd yn gofalu'n ddyfal i sicrhau eich bod yn dod i mewn i amgylchedd dysgu diogel rhag Covid-19. Rydyn ni'n addasu ein dulliau addysgu a dysgu, ein hadnoddau a'n labordai er mwyn sicrhau eich bod yn cynnal eich astudiaethau, eich prosiectau a'ch gweithgareddau dysgu yn ddi-rwystr.

Fel myfyriwr newydd ym Met Caerdydd, neilltuir Tiwtor Personol ar eich cyfer a fydd yn cynnig cymorth drwy gydol eich cyfnod yma. Yn ogystal, bydd eich Cyfarwyddwr eich Rhaglen (neu "PD") yn bwynt cyswllt cymorth ychwanegol ond hefyd yn gyfrifol am gydlynu cynnwys academiaidd a gweinyddiaeth y cwrs.

Lluniwyd y pecyn croeso hwn i'ch roi ar ben ffordd a chynnig ychydig o wybodaeth i chi am eich wythnos gyntaf yn y Brifysgol. Rydyn ni hefyd wedi trefnu prosiect dros yr haf yn cynnwys ychydig o weithgareddau i chi roi cynnig arnyn nhw ar eich cyflymder eich hun. Gobeithio y bydd hyn yn rhoi syniad i chi am y cwrs yn ogystal ag ysbrydoli'ch brwdfrydedd fel myfyriwr Systemau Gwybodaeth Busnes.

Yn ystod yr wythnos sefydlu, cewch gyfle i gwrdd â'ch darlithwyr a dysgu rhagor am Met Caerdydd a'r Ddinas. Gobeithio y cewch yr wythnos yn un foddhaus a phleserus.

Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi yn fuan!

Yn Gywir,

Sia

Dr. Chow Siing Sia
Uwch Ddarlithydd
Cyfarwyddwr Rhaglenni ar gyfer Systemau Gwybodaeth Busnes
Ysgol Dechnolegau Caerdydd
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Rhodfa'r Gorllewin
CAERDYDD
CF5 2YB
E-bost : csia@cardiffmet.ac.uk



2. Tasgau Haf Cyn Cyrraedd

Paratowyd y set o weithgareddau a restrir isod i symbylu'ch brwdfrydedd, meddwl yn critigol a galluoedd datrys problemau; sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer rhaglen radd Systemau Gwybodaeth Busnes (BIS). Chi sydd i benderfynu ym mha drefn i gwblhau'r gweithgareddau. Gallwch eu gwneud ar eich cyflymder eich hun a gallwch gyfeirio at unrhyw adnodd ychwanegol os bydd angen.

Gweithgaredd 1: Ieithoedd rhaglennu sylfaenol

Fel graddedigion BIS, efallai bydd gofyn i wneud gweithgareddau megis casglu gofynion, llunio systemau rheoli prosiect yn ystod cyfnod prosiect datblygu meddalwedd. Yn yr achos hwn, byddai dealltwriaeth sylfaenol o ieithoedd rhaglennu a swyddogaethau allweddol yn eich helpu i berfformio'ch rôl yn well fel dadansoddwr busnes. Yn ogystal, byddwch yn dod ar draws ychydig o elfennau rhaglennu yn y cwrs hwn o fewn modiwlau megis datblygu gwefan, gwybodaeth busnes a dadansoddi data. Yn yr achos hwn, gallai dilyn tiwtorialau a chyrsgiau ar-lein gynnig rhagarweiniad sylfaenol i raglennu a datblygu gwefan. **Peidiwch â phoeni os cewch y rhain yn anodd, gan y byddwn yn trafod y rhain yn fanwl yn ystod y cwrs a chewch gymorth drwy ymarferion ymarferol ac ymarferion yn y labordy.**

- [HTML, CSS and JavaScript for Web development](#),
- [Learn Python](#)
- [Learn R](#)

Gweithgaredd 2: Llunio a modelu system

Un o rolau allweddol myfyriwr/ person graddedig BIS fydd ymwneud â chyfnodau dadansoddi gofynion a llunio cyfnodau o brosiectau peirianeg cymhleth. Yn yr achos hwn, mae'n gyffredin i ddefnyddio iaith modelu gweledol megis UML oherwydd ei gystrawen syml, ei fod yn cael ei dderbyn yn fyd-eang a'i natur ddisgrifiadol ddiamwys. Diffinnir nifer o ddiagramau UML o fewn y safon a byddai'n ddefnyddiol i chi ymglyfarwyddo â rhai o'r diagramau megis achosion defnydd, cydran, diagramau gweithgaredd a dilyniant ayb. Gallwch feddwl am enghraifft o system (h.y. system monitro, system tracio cleifion Cofid-19 ayb.) ac yna, ceisio llunio ychydig o ddiagramau UML i ddisgrifio'i ffwythiant. Dylai'r ddolen gyswllt isod rhoi enghreifftiau a disgrifiadau o bob un o'r diagramau hyn.

<https://www.uml-diagrams.org/>

Gweithgaredd 3: Dadansoddi data a delweddu

Mae dadansoddi data a delweddu yn agwedd sydd yn dod i'r amlwg ym maes gwyddor data yn ogystal ag ym maes dadansoddi busnes. Bydd yn ddefnyddiol os gallwch ystyried swyddogaethau dadansoddi data proffesiynol ac adnoddau delweddu megis 'Tableau', wrth i chi baratoi ar gyfer eich astudiaethau israddedig. Gallwch ddefnyddio'r dolenni cyswllt canlynol i lawrlwytho fersiwn pen desg am ddim o'r meddalwedd a dilyn hyfforddiant ar-lein ar ddadansoddi data gan ddefnyddio 'Tableau'.

<https://public.tableau.com/en-us/s/>

<https://www.tableau.com/en-gb/learn/training/20202>

3. Cofrestru / Casglu CerdynMet Myfyriwr

Mae cofrestru'n broses bwysig sy'n cadarnhau eich statws fel Myfyriwr.

Gallwch gwblhau'r broses hunan-ymrestru ar-lein o unrhyw gyfrifiadur trwy ein system Hunanwasanaeth. Sylwer, er mwyn ymrestru: rhaid i'ch statws fod yn Ddiamod Cadarn (DC).

Byddwch yn derbyn e-bost yn eich hysbysu pryd y byddwch chi'n gymwys i gofrestru ar-lein. Bydd yr e-bost yn eich cyfeirio at gyfleuster ailosod cyfrinair er mwyn ichi ofyn am gyfrinair i allu mewngofnodi a chwblhau'r broses gofrestru. I gael gwybodaeth ac arweiniad ar y broses hon, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â'n tudalen gofrestru - www.metcaerdydd.ac.uk/study/newstudents/Pages/Enrolment.aspx#.

Mae'r broses hon yn hanfodol gan y bydd yn caniatáu ichi gael mynediad at eich benthyciad myfyriwr (os ymgeisiwyd amdano), talu ffioedd, systemau TG Met Caerdydd ac, yn bwysig, eich galluogi i gael eich CerdynMet Myfyriwr.

Byddwch hefyd yn derbyn eich Llawlyfr Rhaglen yn ystod eich Wythnos Sefydlu. Mae'r Llawlyfr Rhaglen yn hanfodol trwy gydol y Rhaglen a dylid ei gadw i'w ddefnyddio trwy gydol eich cwrs astudio. Bob blwyddyn academiaidd, darperir gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â'r lefel honno. Mae'r Llawlyfr yn cynnig arweiniad ar Reolau, Rheoliadau a Gweithdrefnau; ac arweiniad ar ddysgu ar gyfer ymarfer gyda gwybodaeth am yr holl fodiwlau sydd i'w cymryd a rhestrau darllen.

Cofrestru ar gyfer Myfyrrwyr Rhyngwladol

Os ydych chi'n fyfyrwr rhyngwladol, bydd gofyn ichi gyflwyno rhywfaint o ddogfennaeth cyn derbyn cymeradwyaeth i gofrestru ar-lein. I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru i fyfyrwyr rhyngwladol a rhestr o ddogfennau y bydd angen ichi eu cyflwyno, ewch i'r [tudalennau myfyrrwyr rhyngwladol](#) neu cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo ar immigrationregs@cardiffmet.ac.uk.

Y Llyfrgell a Gwasanaethau Gwybodaeth

Bydd gennych fynediad at Lyfrgell a Gwasanaethau Gwybodaeth Met Caerdydd yn fuan ar ôl cwblhau eich cofrestru ar-lein. Anfonir e-bost cadarnhau atoch gyda'ch manylion mewngofnodi Met Caerdydd. I weld pa gyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael, ewch i <https://study.metcaerdydd.ac.uk/Library/Pages/Home.aspx>.

Eich CerdynMet Myfyriwr

Mae eich CerdynMet yn rhoi mynediad ichi at holl adeiladau a drysau'r prif gampws. Gallwch hefyd ychwanegu arian at eich CerdynMet er mwyn cyrchu'r argraffwyr hunanwasanaeth, copïwyr a gwasanaethau'r Stiwdio Argraffu a thalu amdanynt. I weld buddion pellach CerdynMet, cliciwch [yma](#).

Ffioedd

Mae ffioedd dysgu ar gyfer myfyrrwyr Cartref ar gyfer graddau israddedig amser llawn, a rhaglenni gradd Meistr amser llawn ar gyfer mynediad ym Medi 2021 wedi'u gosod ar £9,000 y flwyddyn. I gael rhagor o wybodaeth am ffioedd dysgu, cyfeiriwch at ein [Tablau Ffioedd](#). Os oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth eich rhaglen, fe'u rhestrir ar www.metcaerdydd.ac.uk/study/finance/Pages/Additional-Costs.aspx#. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r rhain i sicrhau eich bod chi'n ymwybodol o unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'ch cwrs.

Gellir gweld manylion am ffioedd myfyrrwyr rhyngwladol [yma](#). Dylech eisoes fod yn ymwybodol o'r costau hyn.



4. Wythnos Sefydlu

Ar gyfer pob myfyriwr yn yr Ysgol Reoli, bydd Sefydlu'n dechrau ddydd Llun 20^{fed} Medi 2021. Mae eich tymor cyntaf fel myfyriwr newydd yn dechrau gyda'r Wythnos Sefydlu, lle byddwch chi'n ymgartrefu yn eich llety, eich cwrs a'ch bywyd myfyriwr. Rhaglen o ddigwyddiadau yw eich amserlen Wythnos Sefydlu sydd wedi'i chynllunio i'ch ymgyswngi â Met Caerdydd, ei chyfleusterau a'ch cyd-fyfyrwyr. Byddwch yn cael y cyfle i fynychu ystod o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'ch rhaglen, gwasanaethau llyfrgell, TG, gwasanaethau myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr. Byddwch hefyd yn cwrdd â'ch tiwtor personol, ac yn cael nifer o sesiynau gydag ef/hi, i sicrhau bod eich pontio academiaidd mor llyfn â phosibl.

Yn unol â'r wybodaeth cyflwyno rhaglenni isod, bydd yr wythnos Sefydlu'n cynnwys gweithgareddau cydamserol (a gyflwynir ar amser a drefnwyd o dan arweiniad aelod o staff) ac anghydamserol (gweithgareddau a ddyluniwyd ac a osodwyd gan aelod o staff ond a gwblheir yn eich amser eich hun). Cynhelir y gweithgareddau hyn i raddau helaeth mewn amgylchedd ar-lein/ rhithiol wedi'u gwasgaru trwy gydol yr wythnos sefydlu; fodd bynnag, rydym hefyd yn cynllunio gweithgareddau i'w cynnal ar y campws lle bo cyfyngiadau llywodraeth yn caniatáu hynny.

Mae eich digwyddiadau a'ch amserlen derfynol yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd a byddant yn cael eu lanlwytho fel dogfen ar wahân ar ein tudalennau [Myfyrwyr Newydd](#) ichi.

I'r rhai mewn Neuaddau Preswyl, cofiwch edrych ar y rhaglen a gynigir trwy'r [Tîm Bywyd Preswyl](#).



5. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Nodweddiadol

Gyda chyfyngiadau presennol Llywodraeth Cymru, byddwn yn cynnig eich rhaglen drwy gyfuno addysgu wyneb yn wyneb ac addysgu ar-lein. Gallwch gyrchu cyfleusterau eraill ar y campws a chewch ragor o wybodaeth ar sut i'w Cyrchu yn ystod eich cyfnod sefydlu.

Drwy gydol eich rhaglen radd, byddwch yn astudio cyfres o 'fodiwlau'. Mae pob modiwl fel arfer werth 20 credyd (weithiau'n werth 40 credyd) ac mae 20 credyd gyfystyr â 200 awr o ymdrech – cymysgedd o sesiynau a amserlennir, gwaith paratoi a osodir ac astudiaeth annibynnol o ran eich aseiniadau.

I fanteisio i'r eithaf ar eich profiad ac integreiddio modiwlau eich dewis raglen, cynhelir y cyfryw fodiwlau dros ddau dymor. O fewn pob tymor, byddwch yn astudio 3 modiwl, cynhelir un dros 12 wythnos lawn y tymor a'r ddau arall yn cael eu cynnal mewn bloc o 6 wythnos un ar ôl y llall.

Bydd pob modiwl yn cynnwys y mathau canlynol o brofiad dysgu:

- Stiwdio – Mae hyn yn debyg i ddarlith, ond bydd yn rhyngweithiol gyda phawb ar-lein
- Gweithdy – Bydd hyn yn golygu gweithio mewn grwpiau llai ac yn cael ei arwain gan un o'r tîm addysgu.
 - Yn y modiwl 6 wythnos – bydd hyn yn sesiwn 2 awr ar-lein a sesiwn 2 awr ar y campws
 - Ar gyfer y modiwl 12 wythnos – rhan fynyachaf yn golygu sesiwn 2 awr ar y campws

BSc Systemau Gwybodaeth Busnes Lefel 4 / Blwyddyn 1	Tymor 1 Bloc 1 CIS4000 Meddwl Cyfrifiadol Wthsau 10 - 15	Tymor 1 B1 a 2 Modiwl YRC Busnes mewn Cyd-destun Bydeang	Tymor 2 Bloc 1 CIS4006 Systemau Gwybodaeth Sylfaenol Wthsau 26 – 31	Tymor 2 B1 a 2 CIS4005 Datblygu Meddalwedd o Safon a Systemau Wthsau 26 - 37
	Tymor 1 Bloc 1 CIS4017 Technoleg a Chymdeithas Wthsau 16 - 21		Tymor 2 Bloc 2 CIS4004 Adeiladu ar gyfer y We Wthsau 32 - 37	

Byddwn yn disgwyl i chi baratoi ar gyfer pob sesiwn cyn eu mynychu drwy ddarllen cyfeiriedig neu ymchwil. Mae hwn yn faes pwysig o addysg uwch ac mae'n helpu i ddatblygu'ch hyder fel dysgwr annibynnol. Mae hefyd yn rhoi dyfnder gofynnol i'ch gwybodaeth ar gyfer eich sesiynau a addysgir

Rydyn ni'n sylweddoli na fydd pob myfyrwr yn gallu mynychu oherwydd gwahanol resymau megis cysgodi neu salwch, felly, mae'r Ysgol wedi mabwysiadu dull hyblyg o fynd ati i ddysgu er mwyn delio ag unrhyw newidiadau na ragwelwyd. Gellir trafod hyn gyda'ch Tiwtor Personol neu Gyfarwyddwr eich Rhaglen yn ystod yr Wythnos Sefydlu.



6. Newidiadau i'r Cwrs oherwydd COVID-19

Gellir gweld unrhyw ddiweddariadau i'ch cwrs yn dilyn effeithiau COVID-19 ar y dudalen we ganlynol. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwirio'r dudalen hon yn rheolaidd am unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau pellach, cyn dechrau'ch cwrs:

www.metcaerdydd.ac.uk/study/newstudents/Pages/Programme-Updates.aspx

Mae'n debygol y cyflwynir rhywfaint o'ch sefydlu ar-lein, gan ddefnyddio Microsoft Teams weithiau. Rydym yn argymhell eich bod chi'n lawrlwytho'r ap i'ch ffôn, neu'n ymweld â'r wefan mewn porwr i ymgyswrtio â sut i ddefnyddio'r llwyfan hwn.

Os nad oes gennych y cyfleuster gartref i gael mynediad at y math hwn o lwyfan, neu os byddech chi'n cael unrhyw anhawster i wneud hynny, rhwch wybod inni os gwelwch yn dda.

<https://www.microsoft.com/en-gb/microsoft-365/microsoft-teams/group-chat-software>



7. Dolenni defnyddiol

[Amserlen](#)

Bydd y ddolen hon yn rhoi mynediad ichi at eich amserlen gadarn. Rhaid ichi fod wedi cofrestru cyn y gallwch gyrchu'r ddolen hon, a chysylltir â chi pan fydd y wybodaeth ar gael.

[Ymgysylltu Byd-eang](#)

Cyngor a chefnogaeth i fyfyrwyr rhyngwladol ar wneud eich cais am fisa, byw yn y DU, gwneud trefniadau llety a manteisio ar y Gwasanaeth Croesawu Maes Awyr. Bydd Ymgysylltu Byd-eang yn darparu cymorth lles a chyngor dysgu trwy gydol eich cwrs. Cyfeiriwch hefyd at ein Cwestiynau Cyffredin - www.metcaerdydd.ac.uk/international/study/Pages/default.aspx

[Costau Cwrs Ychwanegol](#)

Costau ychwanegol yw'r treuliau gorfodol neu ddewisol sy'n ychwanegol at ffioedd dysgu y mae'n rhaid i fyfyrwyr dalu amdanynt i gymryd rhan yn llawn a chwblhau eu hastudiaethau. Mae hyn yn cynnwys pethau fel offer, triapiau, lleoliadau a gwiriadau GDG. Mae gan bob rhaglen gostau ychwanegol gwahanol.

[Llety](#)

Bydd cytundebau preswyl Myfyrwyr yn dechrau ar 20^{fed} Medi 2021. Fodd bynnag, oherwydd gofynion cadw pellter cymdeithasol ac er mwyn sicrhau eich iechyd a diogelwch chi a'n staff, ymestynnir cyraeddiadau neuaddau dros nifer o ddyddiau yn yr wythnos flaenorol. Unwaith y byddwch chi wedi cael a derbyn eich cynnig o lety, cadwch lygad am e-bost yn rhoi gwybod ichi pryd y byddwch chi'n gallu symud i mewn. Sylwer y bydd mynediad i'r rhyngwrwyd mewn neuaddau ar gael i'r rhai sydd wedi cwblhau'r broses gofrestru'n llwyddiannus yn unig. Cynhelir amrywiaeth o ddigwyddiadau drwy gydol y cyfnod Sefydlu a thrwy gydol y tymor 1^{af}, yr anfonir gwybodaeth ichi amdanynt gan yr adran Lety unwaith y byddant wedi'u cadarnhau.

[Gwasanaethau Myfyrwyr](#)

Ar gyfer cymorth yn ystod eich amser gyda ni mewn perthynas â'ch iechyd, lles, ffordd o fyw a'ch gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw darparu'r holl gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i sicrhau bod eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosibl. Mae'r gwasanaethau hefyd yn cynnwys cwnsela, anabledd a chaplaniaeth.

[Cyllid Myfyrwyr](#)

Ar gyfer gwybodaeth am Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliadau, grantiau nad ydynt yn ad-daladwy, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau a allai fod ar gael.

[Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)

[Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) gan gynnwys Cymdeithasau UM, Clybiau Chwaraeon UM a'r gallu i gael mynediad at gyngor a chefnogaeth annibynnol

[Dyddiadau Tymhorau](#)



[Mapiau Campws a Llochesi Beiciau](#)

Mae gennym lochesi Storio Beiciau ar bob campws, gydag ystafelloedd newid a chawodydd ar gael. Mae'r llochesi wedi'u diogelu a dim ond pan fyddwch wedi gofyn am ganiatâd trwy'r parth-g y gellir cael mynediad atynt gan ddefnyddio'ch CerdynMet.

[Cynaliadwyedd ym Met Caerdydd](#)

[Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg](#)

Darganfyddwch pa fodiwlau y gallwch ddewis eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar eich cwrs. Yna efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael bwrsariaeth trwy'r [Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#).

[Teithiau Rhithiol](#)

Dewch i gael golwg arall o amgylch ein campws a'n cyfleusterau gyda'n teithiau tywys rhithiol

[Llawlyfr Myfyriwr](#)

[Llawlyfr Academaidd](#)

[Polisi Derbyn](#)

[Cwestiynau Cyffredin](#)

[Cwynion](#)

[Cyrchu systemau TG](#)

Unwaith y byddwch chi wedi cwblhau eich cofrestru ar-lein, byddwch yn gallu cyrchu'r holl systemau TG perthnasol y bydd eu hangen arnoch trwy gydol eich taith myfyriwr. Cyfeiriwch at ein Gwasanaethau TG am ragor o wybodaeth.

[Canolbwynt Met](#)

Eich man canolog fel myfyriwr ym Met Caerdydd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl newyddion a digwyddiadau, ynghyd â mynediad cyflym at yr holl wefannau ac offer defnyddiol.



Brechlynnau COVID-19

Rydym yn annog pob un o'n myfyrwyr i gael y brechlyn Covid-19 cyn gynted â phosibl. Dyma un o'r pethau y gallwn ni i gyd ei wneud i helpu i atal y clefyd rhag lledaenu, cadw ein gilydd yn ddiogel a'n helpu ni i gyd i ddychwelyd i'n bywydau arferol.

Os ydych chi'n byw yng Nghaerdydd ac eto i dderbyn y dos cyntaf o'r brechlyn Covid-19, rydym yn argymhell eich bod chi'n ymweld â Chanolfan Brechu Torfol y Bae sydd wedi'i lleoli yn hen Adeilad Toys R Us. Mae'r ganolfan yn gweithredu fel gwasanaeth galw i mewn, gan gynnig dosau cyntaf o'r brechlyn Covid-19 bob penwythnos rhwng 8am a 4pm i unrhyw un dros 18 oed sy'n byw, astudio neu'n gweithio yng Nghaerdydd.

Os ydych chi'n symud i Gaerdydd i astudio gyda ni ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd ac eto i dderbyn eich dos cyntaf o'r brechlyn Covid-19, rydym yn awgrymu eich bod chi'n gwirio gyda'ch meddyg teulu lleol am gael y dos cyntaf cyn ichi symud. Os nad yw ar gael ichi, dylech fynd i Ganolfan Brechu Torfol y Bae cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd Caerdydd.

Rydym hefyd yn cynghori ein holl fyfyrwyr sy'n byw yng Nghaerdydd i gofrestru gyda meddyg teulu. Unwaith y byddwch chi wedi symud, gallwch gofrestru gan ddefnyddio ein [ffurflen Cofrestru Meddyg Teulu Caerdydd](#).

Rhagor o wybodaeth:

[Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

[GIG Lloegr](#)

[Gogledd Iwerddon](#)

[Yr Alban](#)

